OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 374 (Cy.34)

CYFRAITH GYFANSODDIADOL DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007

Wedi'i wneud	- -	*13 Chwefror 2007*
Yn dod i rym	- -	*14 Chwefror 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵ er a roddwyd iddo gan baragraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 a daw i rym ar 14 Chwefror 2007.

Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006

2. Dyddiad y cyfarfod cyntaf o'r Cynulliad sydd wedi ei gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar ôl etholiad 2007 fydd 9 Mai 2007.

(**1**) 2006 p.32.